
Cyllid & Thollau EM

Briff Seneddol




# Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant

**O 7 Ionawr 2013, bydd unrhyw drethdalwr gydag incwm o fwy na £50,000 mewn blwyddyn dreth ac sy'n derbyn Budd-dal Plant neu y mae ei bartner/phartner yn derbyn Budd-dal Plant, yn agored i dâl treth incwm newydd. Mae'r briff hwn yn egluro pwy fydd yn cael eu heffeithio, sut y bydd y tâl yn gweithio a sut y byddwn yn ei weinyddu, gan gynnwys yr wybodaeth y byddwn yn ei darparu i gwsmeriaid a effeithir gan y newidiadau.**

## Ar bwy fydd y tâl yn effeithio

Bydd tua un miliwn o drethdalwyr yn cael eu heffeithio gan y tâl, allan o wyth miliwn o drethdalwyr sy'n hawlio Budd-dal Plant ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i drethdalwr dalu'r tâl os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol iddynt:

- mae ganddynt incwm unigol sy'n fwy na £50,000 mewn blwyddyn dreth ac yn derbyn Budd-dal Plant, neu
- mae ganddynt incwm unigol sy'n fwy na £50,000 mewn blwyddyn dreth ac yn byw neu wedi byw gyda phartner sy'n derbyn Budd-dal Plant neu
- pan fo gan bob partner incwm unigol sy'n fwy na £50,000 ac mae un partner yn derbyn Budd-dal Plant, bydd y partner gyda'r incwm uchaf yn agored i dalu'r tâl.

Bydd trethdalwyr hefyd yn cael eu heffeithio yn ystod blwyddyn dreth os:

- oes ganddynt incwm unigol sy'n fwy na £50,000 mewn blwyddyn dreth, ac
- mae rhywun arall yn derbyn Budd-dal Plant ar gyfer plentyn sy'n byw gyda nhw ac mae'r person hwnnw yn cyfrannu swm sydd o leiaf yn cyfateb i Fudd-dal Plant tuag at gostau cynhaliaeth y plentyn.

Nid oes raid i drethdalwyr dalu'r tâl:

- pan fo ganddo ef a'i bartner/ganddi hi a'i phartner incymau unigol sy'n llai na £50,000 mewn blwyddyn dreth, neu
- pan nad oes ganddo ef/ganddi hi neu ei bartner/phartner yr hawl i Fudd-dal Plant.

## Sut y bydd y tâl yn gweithio

Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n gorfod talu'r tâl dalu swm sy'n cyfateb i ran neu'r cyfan o'r Budd-dal Plant y mae ef/hi neu ei bartner/phartner â'r hawl i'w dderbyn. Mae swm y tâl yn dibynnu ar lefel yr 'incwm net wedi'i addasu', a faint o Fudd-dal Plant y mae'r hawlydd â'r hawl i'w dderbyn.

I'r rhai sydd ag incwm rhwng £50,000 a £60,000, bydd y tâl treth yn llai na'r hawl i Fudd-dal Plant. Byddant yn talu un y cant o'r hawl Budd-dal Plant am bob £100 o'u hincwm dros £50,000.

Enghraifft

| Trothwy ar gyfer codi'r tâl | Incwm | Incwm sy'n uwch na'r trothwy | Canran y tâl sy'n gymwys = incwm sy'n uwch na throthwy/100 | Budd-dal Plant ar gyfer dau blentyn | Tâl treth = canran o'r tâl sy'n gymwys x swm y Budd-dal Plant (35% x £1,752.40) |
|---|---|---|---|---|---|
| £50,000 | £53,550 | £3,550 | 35%* | £1,752.40 | £613** |

* wedi ei dalgrynnu i lawr i'r ganran lawn agosaf
** wedi ei dalgrynnu i lawr i'r bunt lawn agosaf

## Yr hyn fydd angen i drethdalwyr ei wneud

Mae gan y rheini a effeithir arnynt gan y tâl dau ddewis:

- **parhau i dderbyn** y taliadau Budd-dal Plant a'u datgan at ddibenion treth incwm, neu
- **rhoi'r gorau i dderbyn** taliadau Budd-dal Plant, a fyddai'n golygu na fyddai'n rhaid iddynt dalu'r tâl treth incwm. Byddent yn gallu ailddechrau eu taliadau petai eu hamgylchiadau'n newid. Dim ond hawlydd y Budd-dal Plant sy'n gallu gofyn i'r taliadau ddod i ben.

Os yw incwm trethdalwr rhwng £50,000 a £60,000, bydd y tâl treth bob amser yn llai na swm y Budd-dal Plant ac efallai y bydd yr hawlydd yn dymuno parhau i dderbyn taliadau Budd-dal Plant. Os yw incwm trethdalwr yn fwy na £60,000, codir swm llawn yr hawl Budd-dal Plant ac efallai y byddant yn dymuno rhoi'r gorau i dderbyn taliadau Budd-dal Plant. Bydd cwsmeriaid hefyd yn gallu newid eu meddyliau ynghylch pa ddewis maent yn ei wneud.

Os yw cwsmeriaid yn dewis **parhau i dderbyn** y taliadau Budd-dal Plant bydd angen iddynt ddatgan swm y Budd-dal Plant y maent hwy neu eu partner â'r hawl i dderbyn, drwy gofrestru ar gyfer Hunanasesiad erbyn 5 Hydref 2013 (os nad ydynt eisoes wedi eu cofrestru) a llenwi ffurflen dreth bob blwyddyn.

Gall hawlwyr sy'n dewis parhau i dderbyn taliadau Budd-dal Plant, ac sydd eisiau llenwi ffurflen Hunanasesiad, ei lawrlwytho yn **hmrc.gov.uk/cymraeg/sa1-cymraeg.pdf** neu ffonio'r Llinell Gymorth ar **0300 200 1900**.

Rhaid i gwsmeriaid sy'n dewis **rhoi'r gorau i dderbyn** taliad Budd-dal Plant rhoi gwybod i ni cyn 7 Ionawr 2013. Gallant ddefnyddio ffurflen ar-lein syml ar **hmrc.gov.uk/stopchbpayments**, neu ffonio'r Llinell Gymorth Cymraeg ar **0300 200 1900**. Fel arall gallant ysgrifennu at Cyllid a Thollau EM, Swyddfa Budd-dal Plant, Canolfan Gyswllt Cymraeg, Tŷ Moelwyn, Tros y Bont, Porthmadog, LL49 9NB.

## Beth fydd yn digwydd yn y flwyddyn dreth 2012-13?

Mae'r tâl dim ond yn berthnasol o 7 Ionawr hyd at 5 Ebrill 2013 ar gyfer y flwyddyn dreth 2012-13. Bydd y tâl yn gymwys i swm y Budd-dal Plant yr oedd ganddynt hawl i'w dderbyn o 7 Ionawr 2013 hyd at 5 Ebrill 2013, oni bai eu bod yn dewis atal y taliadau Budd-dal Plant.

## Sut y bydd y tâl yn cael ei rhoi ar waith

Byddwn yn ysgrifennu at drethdalwyr sy'n debygol o gael incwm dros £50,000 i esbonio'r newidiadau a dweud wrthynt beth sydd angen iddynt ei wneud os ydynt yn cael eu heffeithio. Byddant yn cael eu cyfeirio at ein gwefan am wybodaeth fwy manwl ynghylch y tâl newydd a sut i ddewis i naill ai rhoi'r gorau i dderbyn taliadau Budd-dal Plant, neu i gofrestru ar gyfer Hunanasesiad ac anfon ffurflen dreth atom.

Os yn bosibl, dylai partneriaid drafod a phenderfynu ar y cyd beth maent am ei wneud. Bydd y rhai nad ydynt yn gallu trafod y mater gyda'u partner ac sy'n methu â sefydlu p'un a oes angen iddynt dalu'r tâl yn gallu gofyn i ni am wybodaeth gyfyngedig am incwm eu partner a/neu hawl i Fudd-dal Plant. Byddwn yn gallu dweud wrth rywun os p'un a yw incwm ei bartner/phartner yn fwy na'u hincwm hwythau, neu os p'un a oedd Budd-dal Plant wedi cael ei dalu, ond ni allwn ddweud wrthynt yr union swm.

Gall y rhai sy'n talu treth incwm drwy TWE ddewis cael y tandaliad ar gyfer 2012-13 a'r rhwymedigaeth sy'n parhau i godi yn ystod y flwyddyn wedi ei gasglu drwy eu cod treth yn 2014-15. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt lenwi ffurflen dreth Hunanasesiad o hyd. Mae fwy o wybodaeth ar gael yn **hmrc.gov.uk/sa**

## I ganfod mwy

Ewch i'n gwefan yn **hmrc.gov.uk/childbenefitcharge**